STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE
RHONDDA CYNON TAF
TREFTADAETH GADARN | DYFODOL SICR

Environmental Services
Strategic Projects

# Maerdy Workingmen's Hall
# Demolition Contract
# Information Bulletin 1

## An 'update' report on the progress of the acquisition and demolition of the former Maerdy Workingmen's Hall.

*Rhondda Cynon Taf CBC is pleased to confirm that the compulsory purchase procedure for the acquisition of former Maerdy Workingmen's Hall is now complete. RCT will now proceed with the demolition of this unsightly and potentially dangerous building.*

Tenders for the demolition work have been received and a specialist demolition contractor (Cuddy Group) has been appointed. Work on site will start at the end of September. It is anticipated that work will take 12 weeks to complete.

The following is a brief description of the works that will be carried out on site:-

- The initial work will be to set up the site office and welfare facilities and erect scaffolding around the building.
- Whilst the scaffolding is being erected the internal fixtures and fitting will be removed. This process is called 'soft-stripping'.
- As part of the 'soft-stripping' process a specialist team will be removing the asbestos contaminated material from inside the building in a careful and controlled operation.
- When all of the contents of the building have been removed the structure will be demolished using specialist machines. The architectural features of the façade of the building will be carefully removed so that they can be re-used in the future.
- Wherever possible demolition materials will be re-used or re-cycled in order to minimise the quantity of material that has to be sent to a licensed landfill site.
- After the building has been demolished the site will be re-profiled, seeded and fenced. The adjacent properties, where they were attached to the building, will be made good.
- In order to ensure the safety of the general public during the demolition process Institute Street and the affected lengths of the rear lanes adjacent to the building will be temporarily closed.

Should you have any concerns whilst the demolition works are being carried out please contact:

Rhondda Cynon Taf CBC, Strategic Projects — Tel: 01685 885646
Cuddy Group Ltd (Mark Williams) — Tel: 07917 227503

STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE
RHONDDA CYNON TAF
TREFTADAETH GADARN | DYFODOL SICR

Cyfadran y Gwasanaethau Amgylchedd

# Neuadd y Gweithwyr, y Maerdy
# Contract Dymchwel
# Bwletin Gwybodaeth 1

## Dyma'r diweddaraf am y broses o gaffael a dymchwel Hen Neuadd y Gweithwyr, y Maerdy.

*Mae'n bleser gan GBS Rhondda Cynon Taf gadarnhau bod y gorchymyn prynu gorfodol ar gyfer caffael hen Neuadd y Gweithwyr yn y Maerdy wedi'i gwblhau. Bydd RhCT nawr yn parhau â'r gwaith o ddymchwel yr adeilad yma sy'n salw ac y gall fod yn beryglus.*

Mae tendrau ar gyfer y gwaith dymchwel wedi dod i law ac mae contractwr dymchwel arbenigol (Cuddy Group) wedi cael ei benodi. Bydd gwaith yn dechrau ar y safle ddiwedd mis Medi. Disgwylir y bydd y gwaith yn cymryd 12 wythnos i'w gwblhau.

Dyma ddisgrifiad byr o'r gwaith fydd yn digwydd ar y safle:-

- Y gwaith cychwynnol fydd sefydlu swyddfa'r safle a chyfleusterau lles a chodi'r sgaffaldau o amgylch yr adeilad.
- Tra fo'r sgaffaldau'n cael eu codi, bydd y ffitiadau a'r gosodion mewnol yn cael eu symud oddi yno. Enw'r broses yma yw '*soft-stripping*'.
- Fel rhan o'r broses '*soft-stripping*', bydd tîm arbenigol yn cael gwared ar ddeunydd sy'n cynnwys asbestos o'r tu fewn i'r adeilad mewn modd gofalus a than reolaeth.
- Pan fydd holl gynnwys yr adeilad wedi cael ei symud oddi yno, bydd strwythur yr adeilad yn cael ei ddymchwel drwy ddefnyddio peiriannau arbenigol. Bydd nodweddion pensaernïol ffasâd yr adeilad yn cael eu symud oddi yno'n ofalus er mwyn eu hail-ddefnyddio yn y dyfodol.
- Ble bynnag posibl, bydd y deunyddiau fydd wedi eu dymchwel yn cael eu hail-ddefnyddio neu eu hailgylchu er mwyn lleihau'r deunydd fydd yn gorfod mynd i safle tirlenwi trwyddedig.
- Ar ôl i'r adeilad gael ei ddymchwel, bydd y safle'n cael ei ail-osod, ei hadu a'i ffensio. Bydd yr adeiladau cyfagos, lle maen nhw'n cyffwrdd â'r adeilad, yn cael eu hadfer.
- Er mwyn gwneud yn siŵr bod y cyhoedd yn ddiogel yn ystod y broses ddymchwel, bydd Institute Street a'r lonydd cefn cyfagos yn cael eu cau dros dro.

Os bydd gyda chi unrhyw bryderon yn ystod y gwaith dymchwel, mae croeso i chi gysylltu â:

| | |
|---|---|
| Cynlluniau Strategol CBS Rhondda Cynon Taf | Ffôn: 01685 885646 |
| Cuddy Group Ltd (Mark Williams) | Ffôn: 07917 227503 |